Cyngor Osteopathig Cyffredinol

# Canllawiau ar Ymddygiadau Proffesiynol ac Addasrwydd i Ymarfer Myfyrwyr Osteopathig

**Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol**

1. Mae'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (y Cyngor) yn rheoleiddio ymarfer osteopathi yn y Deyrnas Unedig. Fel corff rheoleiddio, rydym wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bob ymgeisydd a myfyriwr osteopathi.

2. Rydym yn un o naw rheoleiddiwr iechyd proffesiynol a sefydlwyd gan y gyfraith i sicrhau diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd[1].

3. Yn ôl y gyfraith, rhaid i osteopathiaid fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol er mwyn ymarfer yn y DU.

4. Fel gyda phob rheoleiddiwr gofal iechyd, ein prif ddiben yw diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd; hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi; a hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol aelodau'r proffesiynau hynny[2]. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy:

   - Gadw'r Gofrestr o bawb sydd â hawl i ymarfer osteopathi yn y DU.
   - Gosod, monitro a datblygu safonau hyfforddiant, ymarfer ac ymddygiad osteopathig.
   - Sicrhau ansawdd addysg osteopathig a sicrhau bod osteopathiaid yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus
   - Helpu cleifion ac eraill sydd â phryderon neu gwynion am osteopath. Mae gennym y pŵer i dynnu unrhyw osteopath nad yw'n gymwys i ymarfer oddi ar y Gofrestr.

5. Mae cleifion yn disgwyl y bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gymwys ac yn ymarfer yn ddiogel, yn trin cleifion yn iawn ac yn ymddwyn yn foesegol. Cyfrifoldeb y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw sicrhau bod hyn yn digwydd a chymryd camau os na fydd ymarfer osteopath yn cyrraedd ein safonau.

---

[1] Gellir dod o hyd i wybodaeth am bob un o'r naw rheoleiddiwr iechyd proffesiynol yn: http://bit.ly/2oyBQ3t

[2] A3(1) o *Ddeddf Osteopathiaid 1993*, fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015*

## Cynnwys

**Cyflwyniad**

Beth yw rôl y sefydliad addysgol osteopathig mewn perthynas ag addasrwydd myfyriwr i ymarfer?

Pam mae'n rhaid i fyfyrwyr gofal iechyd fodloni safonau uchel o ymddygiad proffesiynol?

Gwerthoedd cyffredin gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Yr *Osteopathic Practice Standards*

Mae bywydau personol yn cyfrif hefyd

Ffiniau

Codi pryderon

Y ddyletswydd gonestrwydd

Iechyd ac anabledd

Pa gymorth fydda i'n ei gael i fod yn addas i ymarfer?

Achosion addasrwydd i ymarfer

Cofrestriad gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol

## Cyflwyniad

1. Diben y llyfryn hwn yw amlinellu'r ymddygiadau proffesiynol a ddisgwylir gan fyfyrwyr osteopathi a rhoi amlinelliad i chi o rôl y sefydliad addysgol osteopathig mewn perthynas â chymhwyster i ymarfer a sicrhau diogelwch cleifion.[3] Dylid darllen y llyfryn hwn ar y cyd â *Student Fitness to Practise: Guidance for Osteopathic Educational Institutions* a'n canllawiau penodol ar reoli namau iechyd ac anabledd sydd ar gael ar ein gwefan yn: www.osteopathy.org.uk, yn ogystal â'r canllawiau lleol manwl sydd ar waith yn eich sefydliad addysgol a lleoliadau addysgol a chlinigol eraill y gallech chi weithio ynddynt yn ystod eich hyfforddiant. Defnyddir enghreifftiau achos yn y ddogfen hon i helpu i gyd-destunoli'r canllawiau a roddir. Nid ydynt yn cael eu cynnig fel dull 'safon aur', ond maent yn dangos y mathau o faterion a allai godi, a sut y gellid eu rheoli.

1. Pan ddywedwn fod rhywun yn 'addas i ymarfer', rydym yn golygu bod ganddynt y wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r iechyd sydd eu hangen i ymarfer osteopathi yn ddiogel ac effeithiol. Mae gwahaniaethau rhwng y safonau a ddisgwylir gan fyfyrwyr osteopathig osteopathi ac osteopathiaid cofrestredig, ond mae llawer o debygrwydd hefyd. Myfyrwyr osteopathig yw osteopathiaid cofrestredig yfory.

2. Mae cleifion a'r cyhoedd yn ymddiried mewn gweithwyr iechyd proffesiynol. Er mwyn cynnal yr ymddiriedaeth hon, mae'n bwysig i fyfyrwyr y proffesiynau iechyd ymddwyn mewn ffordd a fydd yn parhau i hyrwyddo'r gofal gorau i gleifion a chynnal enw da'r proffesiwn.

3. Mae ymddygiad proffesiynol yn golygu dangos gwerthoedd, ymddygiadau a pherthnasoedd priodol gan ddefnyddio gwybodaeth, sgiliau ac agweddau priodol. Mae'n amlygu ei hun fel gwneud y peth iawn ac ymddwyn yn briodol, hyd yn oed pan nad oes unrhyw un yn edrych. Mae rheoleiddio'n dechrau gyda chyfrifoldeb personol. Fel rhan o'ch addysg a'ch hyfforddiant fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol, byddwch yn parhau i ddysgu am ymddygiad proffesiynol a chyfrifoldeb personol.

4. Mae eich ymddygiad yn eich bywyd personol a phroffesiynol yn cyfrif wrth ystyried ymddygiad proffesiynol, hyd yn oed fel myfyriwr. Gydol eich cwrs, bydd pwysigrwydd ymddygiad a mynd i'r afael â materion moesegol mewn ffordd briodol yn cael ei bwysleisio i chi. Byddwch yn cael eich cefnogi i ddysgu ymddygiadau proffesiynol effeithiol drwy gydol eich cwrs cymhwyster cydnabyddedig.

[3] Gydol y canllawiau hyn, mae'r term 'claf' yn cynnwys claf, gofalwr, rhiant, cyd-fyfyrwyr a staff, lle bo hynny'n briodol.

5. Os oes pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer, dilynir proses deg a thryloyw. Bydd y broses hon yn cydymffurfio â'r canllawiau yn *Student Fitness to Practise: Guidance for Osteopathic Educational Institutions* y Cyngor Osteopathig Cyffredinol[4]

Disgwylir i chi fodloni'r holl ofynion a nodir yn yr *Osteopathic Practice Standards*[5] ac yn *Guidance for Pre-Registration Osteopathic Education*[6] y Cyngor Osteopathig Cyffredinol cyn dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig i chi. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (www.osteopathy.org.uk).

## Beth yw rôl y sefydliad addysgol osteopathig mewn perthynas ag addasrwydd myfyriwr i ymarfer?

6. Rôl y sefydliad addysgol osteopathig yw sicrhau mai dim ond myfyrwyr sy'n bodloni'r safonau cymhwysedd, ymddygiad a moesegol gofynnol a nodir yn yr *Osteopathic Practice Standards* sy'n derbyn cymhwyster cydnabyddedig.

7. Dylai sefydliadau addysgol osteopathig annog sgyrsiau am reoli nam ar iechyd ac anabledd ac addasiadau rhesymol addas cyn gynted â phosibl i gefnogi myfyrwyr i gyflawni'r safonau gofynnol neu i wneud penderfyniadau'n gyflym ac yn deg os na ellir gwneud addasiadau rhesymol. Mae canllawiau pellach ar hyn ar gael yn ein cyhoeddiadau *Students with a disability or health condition: Guidance for Osteopathic Educational Institutions* a *Guidance for Applicants and Students with a disability or health condition*, ac mae'r ddau ar gael ar wefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol (www.osteopathy.org.uk)

8. Mae'r sefydliadau addysgol osteopathig yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu sut mae polisïau a gweithdrefnau cymhwyster i ymarfer myfyriwr yn cael eu rheoli a'u hymgorffori yn eu cyrsiau. Bydd y polisïau hyn yn cynnwys rheoli euogfarnau troseddol, yn ogystal ag ymddygiad arall a allai effeithio ar ddiogelwch cleifion.

9. Cynlluniwyd canllawiau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol i fod yn fframwaith cyffredinol i gefnogi'r broses hon – ac nid yn fecanwaith ar gyfer apelio. Dylai polisi pob sefydliad addysgol osteopathig ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer gael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyson â'r gweithdrefnau sydd ar waith yn y sefydliad hwnnw, unrhyw brifysgol ddilysu a'r lleoliad clinigol y darperir gofal osteopathig ynddo. Dylai'r polisïau sefydliadol lleol hyn gael eu hegluro i fyfyrwyr ar ddechrau'r cwrs.

10. Disgwylir i bob sefydliad addysgol osteopathig fod wedi cyhoeddi gwybodaeth am bwysigrwydd ymddygiadau proffesiynol, sut mae'r rhain yn cael eu haddysgu a sut mae cyfleoedd dysgu'n cael eu hwyluso drwy gydol y cwrs.

---

[4] Ar gael yn: http://bit.ly/2o4NUpj
[5] Mae'r *Osteopathic Practice Standards* ar gael yn: http://bit.ly/1Q3yEj3
[6] Mae *Guidance for Pre-registration Osteopathic Education* ar gael yn: http://bit.ly/1XZrN45

11. Mae cyd-destun materion addasrwydd i ymarfer sy'n ymwneud â myfyrwyr yn wahanol i'r cyd-destun mewn perthynas ag osteopathiaid cofrestredig[7]. O ran myfyrwyr, mater i'r sefydliad addysgol osteopathig yw cefnogi datblygiad ymddygiadau proffesiynol, a bod â phrosesau effeithiol ar gyfer rheoli myfyrwyr efallai y cwestiynir eu haddasrwydd i ymarfer. Y nod yn y pen draw yw sicrhau mai dim ond y rhai sydd â'r sgiliau, y wybodaeth, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd priodol sy'n gallu ymuno â'r proffesiwn a chofrestru fel osteopathiaid.

## Pam mae'n rhaid i fyfyrwyr gofal iechyd fodloni safonau uchel o ymddygiad proffesiynol?

12. Mae gan y cyhoedd, gan gynnwys perthnasau a ffrindiau, cydweithwyr a staff, ddisgwyliadau penodol o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae hyn oherwydd, fel claf, bydd y rhan fwyaf o bobl yn agored i niwed. Mae cleifion yn disgwyl y bydd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn eu trin yn briodol ac yn ymddwyn yn foesegol. Mae ymddiriedaeth yn hanfodol bwysig i'r berthynas therapiwtig hon. Yn aml, bydd gan y claf yr un disgwyliadau o fyfyriwr, a bydd yn dangos yr un lefel o ymddiriedaeth ynddo, ag y byddai'n ei roi i weithiwr iechyd proffesiynol cwbl gymwys. Mae hyn yn golygu bod myfyrwyr gofal iechyd yn wahanol i fyfyrwyr disgyblaethau eraill. Mae ymddygiad proffesiynol ym mhob agwedd ar fywyd yn bwysig. Mae myfyrwyr osteopathig yn y DU fel arfer yn treulio tua 1,000 o oriau yng nghlinig addysgu eu sefydliad, a bydd y rhan fwyaf yn gweld o leiaf hanner cant o gleifion newydd yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â chleifion sy'n dychwelyd. Mae eu gwaith fel osteopathiaid dan hyfforddiant gyda chleifion yn cael ei oruchwylio gan diwtoriaid y clinig, a fydd yn osteopathiaid cofrestredig eu hunain.

13. Mae rheoleiddio'n digwydd ar sawl lefel wahanol. Y lefel gyntaf o reoleiddio yw'r unigolyn. Mae'n hanfodol bod unigolion yn ymwybodol o egwyddorion rheoleiddio ac yn cadw atynt. Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn cysylltiad â chleifion o ddydd i ddydd ac mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gymryd cyfrifoldeb i ymddwyn mewn ffordd sy'n unol â rhwymedigaethau proffesiynol a'r disgwyliadau sydd gan y cyhoedd o weithwyr gofal iechyd proffesiynol.

14. Wrth i chi symud ymlaen drwy eich cwrs, byddwch yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i gefnogi eich ymarfer ochr yn ochr â gwerthoedd, ymddygiadau a pherthnasoedd priodol.

15. Nid oes rhestr gynhwysfawr o weithgareddau sy'n arwain at weithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer. Mae'r canllawiau hyn yn ceisio nodi egwyddorion cadarnhaol sy'n helpu myfyrwyr i ddeall sut i adnabod yr ymddygiadau 'cywir' mewn unrhyw sefyllfa benodol.

---

[7] Gweler gwefan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol am fanylion sut mae cwynion yn erbyn osteopathiaid yn cael eu rheoli: http://bit.ly/2o67r9N

16. Wrth ystyried eich ymddygiad eich hun ac ymddygiad pobl eraill, gofynnwch i chi'ch hun a fydd yn effeithio ar y canlynol:

   a. y canfyddiad o ddiogelwch cleifion (gan gynnwys diogelwch cyd-fyfyrwyr a staff)?

   b. yr ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathig yr hoffech chi fod yn rhan ohono?

17. Bydd eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ymddygiadau proffesiynol yn newid ac yn datblygu dros amser, ac wrth i chi symud ymlaen drwy eich rhaglen. Bydd y sefyllfaoedd a'r profiadau y byddwch yn dod ar eu traws yn ystod eich astudiaethau yn helpu i lywio'r broses hon, ac yn cyfrannu at eich haddasrwydd i ymarfer. O ganlyniad, bydd y disgwyliadau a roddir ar eich haddasrwydd i ymarfer yn cynyddu wrth i'ch cwrs fynd yn ei flaen, yn enwedig pan fyddwch yn dechrau gweld cleifion yng ngham clinigol eich addysg. Fodd bynnag, ni ddylai hyn gael ei weld fel esgus i ymddwyn yn amhroffesiynol ym mlynyddoedd cyntaf eich addysg osteopathig. Ar unrhyw adeg, mae'n bosibl cwestiynu addasrwydd myfyriwr i ymarfer.

## Gwerthoedd cyffredin gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

18. Mae'r holl reoleiddwyr gofal iechyd wedi ymrwymo i'r gwerthoedd canlynol[8]:

   a. Bod yn agored gyda chleifion a chleientiaid a dangos parch at eu hurddas:

      - gwrando ar gleifion a chleientiaid
      - cadw gwybodaeth am gleifion a chleientiaid yn gyfrinachol
      - sicrhau nad yw eich credoau a'ch gwerthoedd yn niweidio gofal eich cleifion neu eich cleientiaid.

   b. Parchu hawliau cleifion a chleientiaid i fod yn rhan o benderfyniadau am eu triniaeth a'u gofal iechyd:

      - darparu gwybodaeth am gyflyrau ac opsiynau triniaeth cleifion a chleientiaid mewn ffordd y gallant ei deall
      - cael caniatâd priodol cyn ymchwilio i gyflyrau a darparu triniaeth
      - sicrhau bod cleifion yn gallu cael gafael ar eu cofnodion iechyd yn hawdd.

---

[8] Datganiad Gwerthoedd Cyffredin gan Grŵp Prif Weithredwyr y Rheoleiddwyr Gofal Iechyd ar werthoedd proffesiynol (fel y cytunwyd gan Brif Weithredwyr y Cyrff Rheoleiddio yn 2006), ar gael yn: http://bit.ly/2p7yNgt

c. Cyfiawnhau ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd drwy fod yn onest ac yn ddibynadwy:

- gweithredu gyda gonestrwydd a pheidio byth â chamddefnyddio eich statws proffesiynol
- peidio byth â gofyn am, na derbyn, unrhyw gymhelliad, rhodd, lletygarwch neu atgyfeiriad a allai effeithio ar eich gallu i wneud penderfyniad
- argymell defnyddio cynhyrchion neu wasanaethau penodol dim ond ar sail barn glinigol ac nid elw masnachol
- datgan unrhyw fuddiannau personol i'r rhai a allai gael eu heffeithio.

d. Darparu safon dda o ymarfer a gofal:

- cydnabod a gweithio o fewn terfynau eich gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad
- cynnal a gwella eich gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad proffesiynol
- gwneud cofnodion yn brydlon a chynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ar ffurf glir a darllenadwy.

e. Gweithredu'n gyflym i ddiogelu cleifion, cleientiaid a chydweithwyr rhag risg o niwed:

- os gall eich ymddygiad, eich iechyd neu eich perfformiad chi neu ymddygiad, iechyd neu berfformiad gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall roi cleifion, cleientiaid neu gydweithwyr mewn perygl.
- os oes risgiau o haint neu beryglon eraill yn yr amgylchedd.

f. Cydweithio â chydweithwyr o'ch proffesiynau eich hun ac o broffesiynau eraill:

- parchu ac annog y sgiliau a'r cyfraniadau mae eraill yn eu gwneud at ofal cleifion a chleientiaid
- o fewn eich amgylchedd gwaith, cefnogi cydweithwyr proffesiynol i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad proffesiynol
- peidio â mynnu bod cydweithwyr yn ysgwyddo cyfrifoldebau sydd y tu hwnt i'w lefel gwybodaeth, sgiliau a phrofiad.

19. Cynrychiolir y gwerthoedd hyn yn *Osteopathic Practice Standards* y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

## ***Osteopathic Practice Standards***

20. Mae *Osteopathic Practice Standards*[9] y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn nodi'r safonau a'r egwyddorion ymddygiad sy'n ofynnol gan osteopathiaid cofrestredig. Dylid cyflwyno myfyrwyr osteopathig i'r rhain cyn gynted â phosibl yn eu cwrs cymhwyster cydnabyddedig. Bydd cwricwla pob sefydliad addysgol osteopathig yn cael ei fapio i'r *Osteopathic Practice Standards*, gan eich galluogi i ddangos eich gallu i fodloni eu gofynion ac, yn y pen draw, i gofrestru â'r Cyngor.

21. Mae pedair thema yn cael sylw yn yr *Osteopathic Practice Standards*:

- Cyfathrebu a phartneriaeth â chleifion
- Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad
- Diogelwch ac ansawdd mewn ymarfer
- Proffesiynoldeb.

Mae'r safonau wedi'u nodi o dan bob thema, ochr yn ochr â chanllawiau helaeth, sy'n helpu i ddehongli'r rhain yn ystyrlon. Mae'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* yn creu amgylchedd lle bydd disgwyliadau'n bodoli o ran gwybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad myfyriwr drwy gydol ei addysg osteopathig. Wrth i chi symud ymlaen drwy'r cwrs, byddwch yn dechrau dangos y *Safonau Ymarfer Osteopathig*, sy'n briodol i'ch lefel astudio. Yn y tabl drosodd, dangosir y safonau ymarfer yn y golofn chwith ac, ar y dde, rydym wedi nodi'r mathau o ymddygiadau a allai beri pryder. Nid yw hon yn rhestr hollgynhwysol, ond dylai helpu i ddangos y mathau o faterion ac ymddygiadau a allai arwain at broblemau.

[9] Ar gael yn: http://bit.ly/2pt0mjU

**Tabl 1**

<table>
<tr><th>Safonau Ymarfer Osteopathig</th><th>Ymddygiad a allai beri pryder</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfathrebu a phartneriaeth â chleifion</td></tr>
<tr><td>Mae'r berthynas therapiwtig rhwng osteopath a chlaf wedi'i hadeiladu ar ymddiriedaeth a hyder. Rhaid i osteopathiaid gyfathrebu'n effeithiol â chleifion er mwyn sefydlu a chynnal perthynas foesegol.<ul><li>Rhaid bod gennych chi sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol datblygedig a'r gallu i addasu strategaethau cyfathrebu i ddiwallu anghenion penodol claf.</li><li>Gwrandewch ar gleifion a pharchwch eu pryderon a'u dewisiadau.</li><li>Rhowch y wybodaeth sydd ei hangen ar gleifion mewn ffordd y gallant ei deall.</li><li>Rhaid i chi gael caniatâd dilys cyn triniaeth.</li><li>Gweithiwch mewn partneriaeth â chleifion i ddod o hyd i'r driniaeth orau ar eu cyfer.</li><li>Cefnogwch gleifion i ofalu am eu hunain i wella a chynnal eu hiechyd eu hunain.</li></ul></td><td>Byddai pryderon:<ul><li>Pe bai gennych chi sgiliau cyfathrebu gwael, a allai amlygu gyda chleifion, cyd-fyfyrwyr neu staff.</li><li>Pe baech wedi methu â chael caniatâd gan glaf cyn ei drin, neu ddefnyddio technegau osteopathig ar gydweithwyr heb eu caniatâd.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2">Gwybodaeth, sgiliau a pherfformiad</td></tr>
<tr><td>Yn foesegol, rhaid i osteopath feddu ar y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol sydd eu hangen i weithredu fel gweithiwr gofal iechyd sylfaenol proffesiynol.<ul><li>Rhaid i chi ddeall cysyniadau ac egwyddorion osteopathig a'u cymhwyso'n feirniadol i ofal cleifion.</li><li>Rhaid bod gennych chi ddigon o wybodaeth a sgiliau i gefnogi eich gwaith fel osteopath.</li><li>Dylech gydnabod a gweithio o fewn terfynau eich cymhwysedd.</li><li>Daliwch ati i ddiweddaru eich gwybodaeth a'ch sgiliau proffesiynol.</li></ul></td><td>Byddai pryderon:<ul><li>Pe baech yn dangos ymrwymiad gwael i'ch cynnydd academaidd a'ch ymgysylltiad â'ch rhaglen astudio.</li><li>Pe baech yn dangos diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ynghylch maint eich gwybodaeth a'ch cymhwysedd eich hun.</li></ul></td></tr>
</table>

| Diogelwch ac ansawdd mewn ymarfer | |
|---|---|
| Rhaid i osteopathiaid ddarparu gofal iechyd diogel, moesegol ac effeithiol o ansawdd uchel drwy werthuso a dulliau triniaeth ystyriol, sy'n cael eu hesbonio'n glir i'r claf ac yn parchu urddas cleifion. Mae osteopathiaid wedi ymrwymo i gynnal a gwella eu hymarfer i ddarparu gofal cleifion o ansawdd uchel yn barhaus.<br>• Rhaid i chi allu cynnal gwerthusiad o gleifion osteopathig sy'n ddigonol i wneud diagnosis gwaith a llunio cynllun triniaeth.<br>• Rhaid i chi allu llunio a chyflwyno cynllun triniaeth osteopathig y gellir ei gyfiawnhau neu ddull gweithredu amgen.<br>• Gofalwch am eich cleifion a gwnewch eich gorau i ddeall eu cyflwr a gwella eu hiechyd.<br>• Byddwch yn gwrtais ac yn ystyriol gyda chleifion.<br>• Cydnabyddwch unigolrwydd eich cleifion o ran sut rydych chi'n eu trin.<br>• Parchwch urddas a phreifatrwydd eich cleifion.<br>• Darparwch driniaeth a gofal priodol.<br>• Gofalwch fod cofnodion eich cleifion yn llawn, yn gywir ac yn cael eu cwblhau'n brydlon.<br>• Gweithredwch yn gyflym i helpu cleifion a'u cadw rhag niwed. | Byddai pryderon:<br>• Pe baech yn anghwrtais i gleifion, cydweithwyr neu staff yn gyson.<br>• Pe baech wedi methu â dilyn cyfarwyddiadau'r tiwtoriaid mewn dosbarthiadau ymarferol, neu wrth drin cleifion.<br>• Pe baech yn dangos agwedd wael at ofal cleifion yn gyson, neu ddiffyg parch at les eich cydweithwyr.<br>• Pe baech yn methu â pharchu urddas a phreifatrwydd eich cleifion yn gyson.<br>• Pe baech yn gwneud sylwadau amhriodol am gleifion neu gydweithwyr.<br>• Pe na baech yn cadw cofnodion llawn a chyflawn am gleifion yn unol â gofynion eich sefydliad, neu'n ffugio cofnodion mewn unrhyw ffordd.<br>• Pe baech wedi darparu triniaeth i gydweithwyr neu eraill heb oruchwyliaeth.<br>• Pe baech wedi methu â chydymffurfio â dyletswydd gonestrwydd pe bai rhywbeth wedi mynd o'i le gyda gofal osteopathig claf - byddai hyn yn golygu cuddio materion oddi wrth glaf yn ogystal â staff addysgu. |

| Proffesiynoldeb | |
|---|---|
| Rhaid i osteopathiaid ddarparu gofal iechyd diogel a moesegol drwy ryngweithio â chydweithwyr proffesiynol mewn modd parchus ac amserol.<br><br>• Rhaid i chi ystyried cyfraniadau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i sicrhau'r gofal gorau i gleifion.<br>• Rhaid i chi ymateb yn effeithiol i'r gofynion ar gyfer cynhyrchu deunydd ysgrifenedig a data o ansawdd uchel.<br>• Rhaid i chi allu adfer, prosesu a dadansoddi gwybodaeth yn ôl yr angen.<br>• Gofalwch nad yw eich credoau a'ch gwerthoedd yn niweidio gofal eich cleifion.<br>• Rhaid i chi gydymffurfio â deddfau cydraddoldeb a gwrth-wahaniaethu.<br>• Parchwch hawl eich cleifion i breifatrwydd a chyfrinachedd.<br>• Byddwch yn agored ac yn onest wrth ymdrin â chleifion a chydweithwyr ac ymatebwch yn gyflym i gwynion.<br>• Cefnogwch gydweithwyr a chydweithiwch â nhw i wella gofal cleifion.<br>• Cadwch sylwadau am gydweithwyr neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn onest, yn gywir ac yn ddilys.<br>• Gofalwch nad yw unrhyw broblemau gyda'ch iechyd eich hun yn effeithio ar eich cleifion.<br>• Byddwch yn ymwybodol o'ch rôl fel darparwr gofal iechyd i hyrwyddo iechyd y cyhoedd.<br>• Cymrwch yr holl gamau angenrheidiol i reoli lledaeniad clefydau trosglwyddadwy.<br>• Cydymffurfiwch â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.<br>• Gweithredwch gyda gonestrwydd yn eich ymarfer proffesiynol.<br>• Byddwch yn onest ac yn ddibynadwy yn eich trafodion ariannol, boed yn bersonol neu'n broffesiynol.<br>• Peidiwch â chamddefnyddio eich statws proffesiynol<br>• Cynhaliwch enw da'r proffesiwn drwy eich ymddygiad. Rhaid i chi ddarparu unrhyw wybodaeth bwysig am eich ymddygiad a'ch cymhwysedd i'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. | Byddai pryderon:<br><br>• Pe baech yn dangos diffyg dealltwriaeth o sut y gallai eich iechyd eich hun effeithio ar ofal cleifion.<br>• Pe baech yn ddiystyriol o werthoedd claf, neu'n ceisio gosod eich gwerthoedd neu eich credoau eich hun arno.<br>• Pe baech wedi methu â pharchu cyfrinachedd claf.<br>• Pe baech wedi siarad yn amhroffesiynol am gyfraniad cydweithwyr a darparwyr gofal iechyd eraill.<br>• Pe baech wedi gweithredu'n anonest, er enghraifft, gwneud honiadau anonest am gymwysterau, profiad, cofnodion troseddol ac ati.<br>• Pe baech wedi methu â chadw ffiniau priodol gyda chleifion a thiwtoriaid.<br>• Pe baech wedi twyllo mewn asesiad, gan gynnwys llên-ladrata gwaith academaidd.<br>• Pe baech wedi ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n debygol o ddwyn anfri ar enw da'r proffesiwn. |

***Enghraifft achos***[10]
*Roedd myfyriwr blwyddyn gyntaf yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer darlithoedd dro ar ôl tro ac, yn aml, ni fyddai'n mynychu o gwbl. Methodd â chyflwyno ei ddarn cyntaf o waith cwrs ar ddiwedd tymor 1. Mewn cyfarfod gyda'i diwtor personol a'r swyddog lles myfyrwyr, esboniwyd pam roedd hwn yn fater difrifol, a'r goblygiadau mae presenoldeb gwael yn debygol o'i gael ar ei ganlyniadau ar ddiwedd y flwyddyn. Dywedodd mai dyma'r tro cyntaf iddo fyw oddi cartref a'i fod wedi mynd i'r arfer o aros i fyny'n hwyr, ac mae dyna pam roedd yn cael trafferth codi yn y boreau. Roedd bellach wedi cwblhau'r traethawd, ac roedd yn sicr ei fod am aros ar y rhaglen a dod yn osteopath. Cafodd ei bresenoldeb ei fonitro dros y mis nesaf, a threfnwyd cyfarfod ar gyfer diwedd y cyfnod hwn i adolygu ei gynnydd. Gwellodd ei bresenoldeb yn sylweddol.*

***Enghraifft achos***

*Riportiodd arholwr fyfyriwr am ymddygiad amhriodol yn ystod asesiad. Roedd y myfyriwr wedi bod yn amddiffynnol iawn wrth ateb y cwestiynau, a gwnaeth sylw ymosodol a sarcastig ar y diwedd, gan awgrymu bod yr arholwr wedi bod yn rhagfarnllyd, nad oedd yn hoffi'r myfyriwr a'i bod yn mynd i fethu'r asesiad beth bynnag. Mewn gwirionedd, roedd y myfyriwr wedi pasio'r asesiad. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r myfyriwr lle trafodwyd ei hymddygiad a'i hagwedd amhriodol gyda hi. Ymddiheurodd, a dywedodd mai nerfau eithafol oherwydd yr arholiad oedd wedi ysgogi ei hymateb. Ni chymerwyd unrhyw gamau pellach*.

***Enghraifft achos***

*Roedd myfyriwr pedwaredd flwyddyn yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer clinig dro ar ôl tro ac, ar ddau achlysur, collodd driniaeth claf. Roedd ei gydweithwyr wedi cael llond bol o gyflenwi drosto. Ar ôl siarad ag ef am hyn, cymerodd benwythnos hir yn Ffrainc, a methodd â mynychu'r clinig ar y dydd Llun canlynol o gwbl, gan feio streic fferi. Cyfarfu'r Pennaeth Ymarfer Clinigol â'r myfyriwr, a rhoddodd rybudd ysgrifenedig ffurfiol iddo. Cafodd ei ymddygiad ei fonitro dros y tri mis nesaf, ac fe sylwyd ar welliant amlwg.*

[10] Defnyddir enghreifftiau achos drwy gydol y ddogfen hon i ddangos sut y gellid rhoi'r canllawiau ar waith yn ymarferol. Mae'r rhain yn enghreifftiau ffuglennol, ac nid ydynt yn seiliedig ar achosion, unigolion na sefydliadau addysgol osteopathig gwirioneddol.

## Mae bywydau personol yn cyfrif hefyd

22. Gan eich bod wedi dewis ymuno â proffesiwn gofal iechyd rheoledig, rhaid i chi ymddwyn mewn ffordd onest a dibynadwy o'r dechrau, gan ystyried effeithiau eich gweithredoedd ar eraill. Yn ogystal â'r cymhwysedd a'r ymddygiad proffesiynol y cyfeirir atynt uchod, bydd bywydau personol yn cyfrif hefyd. Gall materion ym mywyd preifat myfyriwr hefyd effeithio ar ei addasrwydd i ymarfer. Yn y tabl isod, rydym wedi nodi meysydd pryder posibl a allai godi ym mywyd personol myfyriwr, gydag enghreifftiau o'r mathau o faterion a allai fod yn berthnasol i bob categori. Efallai y bydd gorgyffwrdd rhwng y rhain a rhai o'r materion proffesiynol a grybwyllwyd uchod yn nhabl 1.

**Tabl 2**

| Meysydd pryder posibl | Enghreifftiau o faterion |
|---|---|
| Euogfarnau troseddol | Dwyn<br>Twyll<br>Troseddau rhywiol, gan gynnwys pornograffi plant |
| Ymddygiad ymosodol, treisgar neu fygythiol | Ymosodiad<br>Cam-drin<br>Bwlio neu ymddygiad bygythiol<br>Ymddygiad treisgar |
| Anonestrwydd | Ffugio CVs neu ddogfennau eraill |
| Ymddygiad neu agweddau amhroffesiynol | Rhoi postiadau neu luniau amhriodol ar y cyfryngau cymdeithasol |
| Pryderon iechyd, gan gynnwys problemau iechyd meddwl | Er nad yw pryderon iechyd, ynddynt eu hunain, fel arfer yn ddigon i gwestiynu addasrwydd myfyriwr i ymarfer, gallai diffyg ymwybyddiaeth o'r rhain a sut y gallai'r rhain effeithio ar ofal cleifion godi pryderon. Gallai hyn gynnwys methu â cheisio help meddygol priodol, neu fethu ag ymgysylltu â thriniaeth neu ofal meddygol. |

Unwaith eto, nid yw'r enghreifftiau a roddir yn hollgynhwysol, ac fe'u darperir i ddangos y mathau o faterion a allai arwain at ymholiad ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer.

***Enghraifft achos***

*Daeth i'r amlwg bod myfyriwr ail flwyddyn wedi derbyn gwaharddiad gyrru am flwyddyn yn ddiweddar, ar ôl cael ei ddal yn gyrru dros y terfyn alcohol cyfreithiol. Roedd y myfyriwr wedi methu â datgelu hyn i'r sefydliad addysgol osteopathig. Pan glywodd tiwtor clinig rai myfyrwyr yn trafod hyn, roedd y myfyriwr dan sylw wedi ceisio ei darbwyllo i beidio â rhoi gwybod i dîm rheoli'r sefydliad addysgol. Cychwynnwyd ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, ac atgyfeiriwyd yr achos i banel. Canfu'r panel fod ei addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu. Er bod y gwaharddiad gyrru yn amlwg yn broblem ynddi'i hun, roedd ei fethiant i ddatgelu hyn, a'i ymdrechion i gelu'r gwir, yn bryder mawr. Argymhellodd y panel y dylid cymryd camau unioni i sicrhau bod y myfyriwr yn deall goblygiadau methu â datgelu gweithredoedd troseddol, ac y dylai gwaith cwrs ychwanegol gael ei gynhyrchu i'r perwyl hwn. Caniatawyd iddo aros ar y rhaglen. Hysbyswyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.*

***Enghraifft achos***

*Cafodd myfyriwr pedwaredd flwyddyn ei riportio i'r tîm rheoli am ddod i'r clinig yn edrych yn anniben ac yn drewi o alcohol. Roedd yn amlwg ei fod wedi bod yn yfed amser cinio. Cafodd ei wahardd o'r clinig ar unwaith. Dywedodd myfyrwyr eraill eu bod yn poeni amdano, gan ei fod wedi bod yn yfed gormod yn ddiweddar ac yn ymddangos ei fod wedi ymddieithrio o'i astudiaethau ar ôl i'w berthynas â'i gariad chwalu yn ddiweddar. Cynhaliwyd ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, ac atgyfeiriwyd yr achos i banel. Cyfaddefodd y myfyriwr fod ganddo broblem alcohol, a bod ei broblemau perthynas diweddar wedi gwaethygu hyn. Roedd yn ceisio datrys pethau, fodd bynnag, ac roedd wedi bod yn derbyn sesiynau cwnsela, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd Alcoholics Anonymous. Roedd wedi bod yn sobor am dair wythnos cyn y gwrandawiad. O ystyried ymwybyddiaeth y myfyriwr o'i broblemau a'r camau cadarnhaol yr oedd yn eu cymryd, argymhellodd y panel y dylai ddychwelyd i'r cwrs, ond ei fod yn cael ei fonitro'n ofalus ac yn mynychu cyfarfodydd wythnosol gyda'r swyddog lles myfyrwyr i sicrhau ei fod yn dod yn ei flaen yn dda. Hysbyswyd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.*

***Enghraifft achos***

*Mae myfyriwr trydedd flwyddyn yn gweithio mewn campfa fel therapydd tylino cymwysedig. Mae darlithydd yn y sefydliad addysgol osteopathig hefyd yn defnyddio'r un gampfa, ac mae'n sgwrsio â rhywun mewn dosbarth ymarfer corff sy'n sôn ei bod wedi mynd at y myfyriwr ar gyfer tylino'r corff. Dywedodd ei bod hi'n dda iawn, gan ei bod hefyd wedi ymarfer rhai technegau osteopathig arni. Mae'r darlithydd yn gofyn pa fathau o dechnegau, ac mae'r person yn ymateb ei bod hi wedi gwneud i'w chefn glicio sawl gwaith. Mae'r darlithydd yn atgyfeirio hyn i Bennaeth y Clinig, ac mae ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn cael ei gynnal. Mae'r myfyriwr yn cyfaddef iddi berfformio dwy dechneg gwthio sydyn iawn ar y claf, ond ei bod wedi dweud wrthi mai dim ond 'ymarfer' oedd hi, gan nad oedd hi wedi cymhwyso fel osteopath eto. Atgyfeirir yr achos i banel, sy'n canfod bod addasrwydd i ymarfer y myfyriwr wedi'i amharu, ond sy'n argymell y dylai gael parhau ar y rhaglen, gan ymgymryd â gwaith ychwanegol fel camau unioni. Mae'r myfyriwr yn dangos ymwybyddiaeth briodol o'r materion dan sylw, ac nid yw'n cyflawni unrhyw dechnegau osteopathig pellach y tu allan i'r amgylchedd addysgu.*

## Ffiniau

23. Byddwch yn cael eich cyflwyno i'r cysyniad o ffiniau proffesiynol, a'r hyn mae hyn yn ei olygu i chi fel myfyriwr osteopathi. Mae'n bwysig bod unrhyw ymarferydd gofal iechyd yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol gyda chleifion[11]. Rhaid i glaf allu teimlo'n hyderus ac yn ddiogel gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac ymddiried ei fod yn gweithredu er lles pennaf y claf, ac yn darparu'r gofal gorau posibl. Gall torri ffiniau rhywiol niweidio'r ymddiriedaeth hon yn ddifrifol. Hyd yn oed fel myfyriwr, mae'n debygol y bydd gwahaniaeth grym rhwng ffigwr 'awdurdod' yr ymarferydd a ffigwr awdurdod claf sy'n agored i niwed, a gall unrhyw achos o dorri'r ffin broffesiynol hon arwain at bryder fel y nodir yn Nhabl 1 uchod.

24. Nid dim ond mewn perthynas â chleifion y gallai materion yn ymwneud â ffiniau godi. Gall perthnasoedd personol â staff addysgu, er enghraifft, arwain at anawsterau. Bydd gan bob sefydliad addysgol osteopathig ei bolisi ei hun ar hyn, ac ar sut y dylid rheoli unrhyw berthnasoedd o'r fath, os cânt eu caniatáu o gwbl. Yn gyffredinol, byddai angen datgelu unrhyw berthynas bersonol ag aelod o staff yn y sefydliad addysgol, fel y gellir cymryd camau priodol i sicrhau nad yw uniondeb asesiadau'n cael ei beryglu. Byddai hyn yn ymwneud â chyfeillgarwch personol, yn ogystal ag unrhyw berthnasoedd rhywiol.

25. Yn yr un modd, dylech ystyried ffiniau mewn perthynas â myfyrwyr eraill. Mae rhywfaint o agosatrwydd yn cael ei gynhyrchu gan natur gorfforol rhaglen osteopathi, sy'n anarferol o fewn addysg uwch. Mae myfyrwyr fel arfer yn awyddus i ymarfer technegau ar ei gilydd, ac weithiau gall hyn ddigwydd i ffwrdd o'r sefydliad addysgol, efallai yn llety'r myfyriwr ei hun. Mae hwn yn amgylchedd lle mae'n hawdd croesi ffiniau, ac a allai arwain at bryderon a chwynion. Unwaith eto, bydd gan eich sefydliad addysgol bolisïau a chanllawiau ynghylch ymarfer technegau, a dylech gydymffurfio â'r rhain.

26. Felly, mae cynnal ffiniau proffesiynol clir gyda chleifion, cydweithwyr a staff o'r sefydliad addysgol yn elfen sylfaenol o ddatblygu ymddygiadau proffesiynol fel myfyriwr osteopathi. Gall torri ffiniau proffesiynol o'r fath arwain at gwestiynu addasrwydd myfyriwr i ymarfer, a allai effeithio ar ei allu i barhau ar y cwrs.

---

[11] Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn cyhoeddi canllawiau yn hyn o beth ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (http://bit.ly/2o6h7Bh) a hefyd ar gyfer cleifion (http://bit.ly/2oXvig7)

***Enghraifft achos***

*Mae dau fyfyriwr blwyddyn gyntaf yn rhannu tŷ gyda dau fyfyriwr trydedd flwyddyn. Mae gan y myfyrwyr blwyddyn gyntaf (dyn a menyw) y tŷ iddyn nhw'u hunain un bore ac maen nhw'n cytuno i fynd drwy rai technegau a gafodd sylw yr wythnos flaenorol mewn dosbarth techneg. Mae'r dyn yn gwneud sylwadau am ddillad isaf ei gydweithiwr wrth iddo ymarfer technegau meinwe meddal o amgylch gwaelod ei chefn a'i phelfis. Mae hi'n teimlo ei fod yn treulio gormod o amser yn gweithio ar ardal y pelfis. Yna mae'n dadwneud ei bra, heb ofyn iddi, fel y gall weithio ar y cyhyrau yn ei hardal thorasig. Mae hi'n teimlo'n anghyfforddus iawn gyda hyn, ac yn gofyn iddo beth mae'n ei wneud. Mae'n ymddiheuro, ac maen nhw'n parhau i weithio am ychydig, er ei bod hi'n dal i deimlo'n anghyfforddus. Yn ddiweddarach, mae'n sôn am hyn wrth ffrind, ac mae hithau'n dweud ei bod wedi cael profiad tebyg gyda'r myfyriwr penodol hwn pan oedd wedi dod draw i'w thŷ i ymarfer. Roedd hi wedi teimlo'n anghyfforddus iawn gyda'r ffordd yr oedd wedi cyffwrdd ynddi, a rhai o'r sylwadau a wnaeth am sut roedd hi'n edrych, ond nid oedd yn siŵr ai hi oedd yn bod yn rhy sensitif. Mae'r ddwy ohonynt yn siarad â'r swyddog lles myfyrwyr, sy'n trefnu i siarad â'r myfyriwr gwrywaidd, ynghyd ag arweinydd y cwrs. Maen nhw'n pwysleisio'r angen am ffiniau clir ac ymddygiad proffesiynol, nid yn unig gyda chleifion, ond gyda chydweithwyr hefyd, ac maen nhw'n trafod y materion a godwyd.*

*Mae'n derbyn bod ei ymddygiad wedi bod yn amhriodol, ac yn cadarnhau y bydd yn ymddwyn yn wahanol yn y dyfodol. Mae'n cael cyfarfodydd rheolaidd gyda'r swyddog lles i drafod ei gynnydd, ac nid oes mwy o achosion yn digwydd.*

***Enghraifft achos***

*Mae myfyriwr pedwaredd flwyddyn yn dod ymlaen yn dda iawn gydag un o'i gleifion, menyw 75 oed sydd â phroblemau iechyd cronig amrywiol. Mae hi'n sôn ei bod hi'n cael trafferth ymdopi â'i gardd a, heb yn wybod i'r tiwtor, mae'r myfyriwr yn cynnig galw i wneud rhai pethau iddi. Mae'n gwneud hynny, ac mae hyn yn dod yn ddigwyddiad rheolaidd dros gyfnod o dri mis. Nid yw'r myfyriwr yn gofyn am unrhyw arian am wneud y gwaith ond, adeg y Nadolig, mae'r claf yn rhoi siec am £500 iddo. Pan ddaw merch y claf i wybod am hyn, mae hi'n cwyno wrth y sefydliad addysgol osteopathig, ac mae ymchwiliad yn cael ei gynnal, a'r achos yn cael ei atgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer. Mae'r myfyriwr yn sylweddoli ei fod wedi rhoi ei hun mewn sefyllfa fregus iawn drwy groesi ffiniau gyda'r claf, er mai bwriadau caredig oedd ganddo. Mae'r ffaith ei fod wedi derbyn y £500, er nad oedd wedi gofyn amdano, yn codi cwestiynau unwaith eto ynghylch ei grebwyll proffesiynol a'i uniondeb personol. Mae'r panel yn teimlo bod y myfyriwr wedi dangos crebwyll gwael, ond mae'n derbyn na wnaeth ymrwymo i'r trefniant yn gobeithio am elw personol. Mae'n dangos hunanymwybyddiaeth o'r materion a godwyd ac, erbyn i'r panel gyfarfod, mae eisoes wedi dychwelyd y £500 i'r claf. Mae'n cael parhau ar y rhaglen gyda'r gofyniad ei fod yn gwneud rhywfaint o waith ychwanegol ar ffiniau proffesiynol, ac yn cyfarfod yn rheolaidd â thiwtor personol.*

***Enghraifft achos***

*Mae myfyriwr gwrywaidd blwyddyn olaf yn digwydd gweld claf benywaidd allan mewn clwb nos lleol. Maen nhw'n cael sgwrs a diod gyda'i gilydd, ac yna'n dawnsio. Mae ffrind yn tynnu llun ohonyn nhw'n dawnsio gyda'i gilydd, ac yn ei lanlwytho i Facebook, gan dagio'r myfyriwr fel bod y llun yn ymddangos yn ei linell amser. Y bore Llun canlynol, mae ffrind i'r myfyriwr yn gweld y llun ar Facebook pan fo yn y clinig addysgu, ac yn adnabod y claf. Mae'n gwneud sylw i'r myfyriwr dan sylw am fynd allan gyda chlaf, sy'n cael ei glywed gan diwtor y clinig. Mae'r tiwtor yn gofyn beth sy'n digwydd, a dangosir y llun iddo. Mae hefyd yn adnabod y claf, ac yn riportio'r mater i reolwyr y clinig. Mae'r myfyriwr yn honni ei fod yn gyfarfod damweiniol ac, er ei fod yn sylweddoli bod y llun yn edrych yn amhriodol, mae'n dweud bod ei weithredoedd yn ddiniwed. Caiff ei atgoffa o ganllawiau'r sefydliad addysgol osteopathig ar ffiniau cleifion ac mae'n gofyn i'w ffrind ddileu'r llun o Facebook. Ni chymerir unrhyw gamau pellach.*

## Codi pryderon

27. Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau i gleifion o gam cynnar yn eu cwrs. Os oes gennych chi bryderon am ymddygiad cyd-fyfyriwr neu aelod o'r staff addysgu, dylech ddwyn eich pryderon i sylw person cyfrifol yn y sefydliad addysgol osteopathig cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau y gellir mynd i'r afael â'r pryderon yn gynnar. Gall hon fod yn sefyllfa heriol, ac efallai y byddwch yn amharod i roi gwybod am bryder am nifer o resymau; efallai y byddwch yn teimlo y bydd codi pryder yn achosi problemau i chi neu'ch cydweithwyr, neu hyd yn oed yn amharu ar eich cynnydd eich hun ar y rhaglen. Fodd bynnag, dylech gofio bod dyletswydd arnoch i roi buddiannau cleifion yn gyntaf. Efallai y bydd gan eich sefydliad addysgol bolisi ar godi pryderon neu 'godi llais', a fydd yn rhoi arweiniad pellach i chi yn hyn o beth.

> ***Enghraifft achos***
>
> *Yfodd myfyriwr gwrywaidd ormod o alcohol mewn parti diwedd blwyddyn, ac fe'i gwelwyd yn poeni cyd-fyfyriwr, gan ei ddilyn i'r toiledau a gafael ynddo. Ymyrrodd myfyrwyr eraill, a chwyno wrth dîm rheoli'r sefydliad addysgol osteopathig. Cafodd y myfyriwr ei wahardd tra bod ymchwiliad addasrwydd i ymarfer yn cael ei gynnal. Yn ystod yr ymchwiliad, darganfuwyd bod y myfyriwr wedi ymddwyn mewn ffordd debyg tuag at ddau fyfyriwr arall y flwyddyn flaenorol. Roedd y myfyrwyr wedi bod yn amharod i riportio hyn ar y pryd, ond maent bellach wedi darparu datganiadau. Atgyfeiriwyd yr achos i banel. Roedd y Panel o'r farn bod addasrwydd y myfyriwr i ymarfer wedi'i amharu, ac argymhellodd y dylid tynnu'r myfyriwr oddi ar y cwrs.*

## Y ddyletswydd gonestrwydd

28. Yn 2014, cyhoeddodd y Cyngor Osteopathig Cyffredinol a rheoleiddwyr eraill ddatganiad ar y cyd ynghylch dyletswydd gonestrwydd i gleifion pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le gyda'u triniaeth neu eu gofal, neu sydd â'r potensial i achosi niwed neu ofid[12]. Mae'n bwysig bod gofal cleifion effeithiol yn cymryd ymagwedd ragweithiol pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Bydd hyn yn berthnasol i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a myfyriwr, er y cydnabyddir y bydd cyd-destun proffesiynau amrywiol yn amrywio'n sylweddol. Rhaid i weithwyr gofal iechyd proffesiynol hefyd fod yn agored gyda'u cydweithwyr a sefydliadau perthnasol eraill, gan gynnwys rheoleiddwyr proffesiynol. Dylen nhw gefnogi ac annog ei gilydd i fod yn agored a gonest, a pheidio ag atal rhywun rhag codi pryderon. I fyfyrwyr, bydd dyletswydd gonestrwydd, sy'n cynnwys bod yn agored ac yn onest gyda staff addysgu, yn ogystal â chyda chleifion, pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le. Dylai eich sefydliad addysgol osteopathig fod â chanllawiau yn hyn o beth, a chyflwynir y cysyniadau i chi fel rhan o'ch rhaglen.

## Iechyd ac anabledd

29. Os oes gennych chi anabledd neu nam iechyd penodol sy'n golygu y gallai fod angen gwneud addasiadau rhesymol i asesu'r safonau yn eich achos, dylech drafod hyn gyda'r person priodol yn eich sefydliad addysgol osteopathig. Mae canllawiau a chymorth ynghylch gwneud addasiadau rhesymol i gyrraedd safonau gofynnol wedi'u nodi yn ein cyhoeddiadau *Students with a disability or health condition: Guidance for Osteopathic Educational Institutions* and *Guidance for Applicants a Students with a disability or health condition*, ac mae'r ddau ar gael ar ein gwefan yn: www.osteopathy.org.uk*.* Dylech gyfeirio at y dogfennau hyn i gael gwybodaeth fanwl am gymorth i fyfyrwyr ag anableddau a namau iechyd.

---

[12] Ar gael yn: http://bit.ly/2nE1bK8

## Pa gymorth fydda i'n ei gael i fod yn addas i ymarfer?

30. Dylai fod deialog barhaus am broffesiynoldeb sy'n rhedeg drwy eich cwrs osteopathig cyn-gofrestru. Dylech gael eich addysgu a'ch cefnogi i ddysgu ymddygiadau proffesiynol. Dylai'r addysgu a gewch hefyd bwysleisio pwysigrwydd bod yn ymwybodol o ddisgwyliadau cleifion, effaith ymddygiadau ar gleifion a chydweithwyr a dylai ganolbwyntio ar fodloni gofynion yr *Osteopathic Practice Standards*[13]

31. Mae hefyd yn bwysig i chi ymddiried yn y person priodol yn eich sefydliad addysgol osteopathig os oes gennych chi bryderon am eich addasrwydd i ymarfer. Bydd hyn yn helpu'r sefydliad addysgol osteopathig i roi'r cymorth a'r arweiniad cywir i chi i'ch helpu chi i gymhwyso fel osteopath.

32. Pan fydd sefydliad addysgol osteopathig yn dyfarnu cymhwyster cydnabyddedig i chi, mae'n cadarnhau eich bod yn gallu ymarfer yn unol â safonau moesegol cyhoeddedig y proffesiwn osteopathig.

33. Mae canllawiau manwl pellach ynghylch sut y gallai myfyrwyr gael mynediad at gymorth ac addasiadau rhesymol ar gael yn y dogfennau canllawiau y cyfeirir atynt ym mharagraff 29 uchod.

### Achosion addasrwydd i ymarfer

34. Rhaid i sefydliadau addysgol osteopathig ymchwilio ac ystyried achosion addasrwydd i ymarfer ffurfiol myfyriwr os daw materion sy'n effeithio ar addasrwydd i ymarfer myfyriwr i'w sylw. Mae ein canllaw *Student Fitness to Practise: Guidance for Osteopathic Educational Institutions*[14] yn nodi gwybodaeth fanwl am achosion addasrwydd i ymarfer myfyriwr. Dylai unrhyw ymchwiliad gael ei gynnal gan aelod staff niwtral, a fydd yn cyfarfod â'r myfyriwr dan sylw ac unrhyw bobl berthnasol eraill i gasglu ystod eang o dystiolaeth. Os na ganfyddir unrhyw dystiolaeth i gadarnhau'r cwestiwn ynghylch addasrwydd myfyriwr i ymarfer, efallai y bydd y mater yn cael ei wrthod, a byddai'r myfyriwr yn gallu parhau fel o'r blaen. Pan fo mân faterion yn codi, a bod angen mynd i'r afael â nhw, gellir datrys y rhain drwy gytuno ar brosesau cymorth a goruchwylio ychwanegol am gyfnod diffiniedig. Gall materion difrifol neu barhaus gael eu hatgyfeirio i banel addasrwydd i ymarfer, a fydd yn cynnwys nifer o bobl sydd heb gysylltiad â'r achos. Gall hyn gynnwys cynrychiolwyr osteopathig ac addysgol, yn ogystal â chyfranogiad lleyg.

35. Efallai y cynhelir gwrandawiad ffurfiol y byddai'n ofynnol i chi ei fynychu fel arfer. Bydd y panel yn dod i benderfyniad yn seiliedig ar yr holl dystiolaeth, a all gynnwys ystod o ganlyniadau. Gallai'r rhain gynnwys:

---

[13] Ar gael yn: http://bit.ly/2pt0mjU
[14] Ar gael yn: http://bit.ly/2o6bxyz

**Rhybuddion**: Mae rhybuddion yn caniatáu i'r sefydliad addysgol osteopathig ddweud wrth fyfyriwr bod ei ymddygiad yn gwyro oddi wrth y safonau a ddisgwylir gan fyfyrwyr osteopathig ac na ddylid ei ailadrodd. Maent yn ymateb ffurfiol er mwyn cynnal gwerthoedd proffesiynol a thanlinellu pwysigrwydd diogelwch cleifion. Dylai fod cymorth digonol i'r myfyriwr fynd i'r afael ag unrhyw broblemau sylfaenol a allai fod wedi cyfrannu at ei ymddygiad gwael.

**Ymgymeriadau**: O dan amgylchiadau penodol, gall y panel addasrwydd i ymarfer gytuno i ymgymeriad gyda'r myfyriwr dan sylw ac i atal achosion pellach tra bod yr ymgymeriad ar waith. Gall ymgymeriadau fod o gymorth pan fo'r sefydliad addysgol osteopathig a'r myfyriwr yn cytuno bod addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu a sut y gellir sicrhau diogelwch cleifion wrth symud ymlaen.

**Amodau**: Mae'r amodau'n briodol pan fo pryder sylweddol am ymddygiad neu iechyd y myfyriwr yn dilyn canfyddiad bod ei addasrwydd i ymarfer wedi'i amharu. Dylid ond gweithredu'r gosb hon os yw'r panel yn fodlon y gallai'r myfyriwr ymateb yn gadarnhaol i hyfforddiant adfer a mwy o oruchwyliaeth, a'i fod wedi dangos dealltwriaeth o’i broblemau. Dylai'r panel ystyried unrhyw dystiolaeth megis adroddiadau ar berfformiad, iechyd ac ymddygiad y myfyriwr ac unrhyw amgylchiadau lliniaru eraill.

**Gwaharddiad:** Mae gwaharddiad yn atal myfyriwr rhag parhau â'i gwrs am gyfnod penodol, a rhag graddio ar yr adeg a ddisgwylir. Mae gwaharddiad yn briodol ar gyfer pryderon diogelwch cleifion sy'n ddigon difrifol i fynnu gwaharddiad tra bod gwaith adfer yn cael ei wneud. Dylid ei weithredu lle nad yw'r amodau'n ymarferol, ac os mai'r ffordd orau o adfer diffygion neu wella o salwch, er enghraifft, yw y tu allan i amgylchedd y cwrs.

**Gwaharddiad o'r cwrs:** Gall y panel wneud argymhelliad i Bennaeth y sefydliad addysgol osteopathig ddiarddel myfyriwr, os ydynt o'r farn mai dyma'r unig ffordd o amddiffyn cleifion (gan gynnwys cyd-fyfyrwyr a staff), gofalwyr, perthnasau, cydweithwyr neu'r cyhoedd. Dylai'r myfyriwr gael ei helpu i drosglwyddo i gwrs arall os yn briodol. Fodd bynnag, gall natur ymddygiad y myfyriwr olygu na ddylid ei dderbyn ar gyrsiau clinigol, nac ar unrhyw gwrs arall. Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, bydd angen i'r Pennaeth gysylltu â'r brifysgol ddilysu ynghylch diarddel.

36. Diben polisïau a gweithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer yw sicrhau diogelwch cleifion a sicrhau bod yr ymddiriedaeth sydd gan y cyhoedd yn y proffesiwn yn cael ei chynnal. Nid ydynt i fod yn gosb am ymddygiadau penodol. Mae dealltwriaeth o ymddygiad amhroffesiynol fel arfer yn rhagofyniad i barhau i fod yn fyfyriwr gofal iechyd proffesiynol. Er bod argymhelliad ar gyfer diarddel yn ganlyniad posibl o weithdrefnau addasrwydd myfyriwr i ymarfer, fel arfer byddai'r pwyslais ar gefnogi myfyrwyr i fod yn addas i ymarfer.

37. Mae *Student Fitness to Practise: Guidance for Osteopathic Educational Institutions* y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yn darparu gwybodaeth fanylach am brosesau derbyn, trothwy addasrwydd myfyriwr i ymarfer a'r broses addasrwydd myfyriwr i ymarfer, gan gynnwys cwestiynau i'w hystyried wrth wneud canfyddiadau a chosbau.

## Cofrestriad gyda'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol

38. Pan fyddwch yn cwblhau eich hyfforddiant yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn cymhwyster cydnabyddedig. Mae meddu ar gymhwyster cydnabyddedig yn rhoi'r hawl i'r deiliad wneud cais i gofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol. Yn ogystal â meddu ar gymhwyster cydnabyddedig, bydd angen i chi ddangos y gofynion canlynol:

    a. Iechyd da – Mae hyn yn angenrheidiol i ymarfer fel osteopath. Mae iechyd da yn golygu bod rhaid i berson allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Nid yw'n golygu absenoldeb unrhyw anabledd neu gyflwr iechyd. Mae llawer o bobl anabl a'r rhai â chyflyrau iechyd hirdymor yn gallu ymarfer gyda neu heb addasiadau i gefnogi eu hymarfer. Mae angen geirda iechyd gan feddyg. Os nad yw'r ymgeisydd yn gallu cael geirda gan feddyg, dylai ofyn am gyngor gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol.

    b. Cymeriad da – mae'n bwysig gan fod rhaid i bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol fod yn onest ac yn ddibynadwy. Mae cymeriad da yn seiliedig ar ymddygiad ac agwedd person. Mae hefyd yn ystyried unrhyw euogfarnau a rhybuddion nad ystyrir eu bod yn gydnaws â chofrestriad proffesiynol ac a allai ddwyn anfri ar y proffesiwn. Rhaid i gymeriad person fod yn ddigon da iddo allu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol heb oruchwyliaeth. Mae arnom angen geirda cymeriad gan berson proffesiynol (er enghraifft, cyfrifydd, athro, deintydd neu debyg) sydd wedi eich adnabod am bedair blynedd (ac nad yw'n berthynas) wrth gofrestru am y tro cyntaf.

    c. Mae addasrwydd i ymarfer yn golygu bod â'r sgiliau, yr wybodaeth, yr iechyd da a'r cymeriad da i wneud eich gwaith yn ddiogel ac yn effeithiol. Bydd eich addasrwydd i ymarfer fel myfyriwr yn cael ei asesu drwy gydol eich rhaglen cyn-gofrestru ac, os oes gennych chi bryderon, bydd eich sefydliad addysgol osteopathig yn ymchwilio i'r rhain ac yn mynd i'r afael â nhw (ar y cyd â'r brifysgol ddilysu lle bo hynny'n briodol).

39. Ar ôl i chi gofrestru, bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi cael yswiriant indemniad proffesiynol cyn dechrau ymarfer.

40. Mae'n ofynnol i bob un sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol ymarfer yn unol â'r *Osteopathic Practice Standards*. Mae dyfarnu'r cymhwyster cydnabyddedig yn golygu eich bod wedi cael eich asesu fel rhywun sy'n gallu cyflawni'r safonau hyn.

41. Ar ôl i chi gofrestru, bydd disgwyl i chi ymgyfarwyddo â'r *Continuing Professional Development (CPD) Guidelines*[15] a chydymffurfio â gofynion DPP y Cyngor sydd mewn grym ar y pryd. Mae rhagor o wybodaeth am gymhwyster i ymarfer myfyriwr, ei gofrestriad, DPP neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â chofrestru a rheoleiddio ar gael gan y Cyngor Osteopathig Cyffredinol drwy e-bostio standards@osteopathy.org.uk neu ffonio 020 7357 6655.

[15] Ar gael yn: http://bit.ly/2oyolkC

**Logo'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol**

**Cyfeiriad**

**Dyddiad**